| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (MEIRIONNYDD)** |
| **DYDDIAD:** | **29 TACHWEDD 2012** |
| **TEITL:** | **CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – CELL B , PARK SQUARE, BLAENAU FFESTINIOG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

**CAIS**

Atodir cais i adolygu Trwydded eiddo Cell B, Park Square, Blaenau Ffestiniog, LL41 3AD gan Mr Ian Rogers, sydd yn preswylio yn Park Villa, Park Square, Blaenau Ffestiniog LL41 3AD.
Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno'r cais am adolygiad oherwydd ymddygiad gwrth gymdeithasol a sŵn yn hwyr yn y nos yn deillio o weithgareddau trwyddedig a gynhelir yn yr eiddo trwyddedig Cell B.
Cyflwynir yr adolygiad mewn perthynas â'r amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth o ddigwyddiadau gwrth gymdeithasol mewn perthynas â ymddygiad cwsmeriaid Cell B, mae'r ymgeisydd yn cyfeirio at achosion lle y bu iddo dystio diffyg cydymffurfiad ag amodau trwydded yr eiddo -

- Cwsmeriaid yn cael eu caniatáu i adael yr eiddo gyda diodydd alcohol
- Cwsmeriaid a oedd yn amlwg yn feddw yn cael mynediad i'r eiddo
- Caniatáu i gwsmeriaid yfed alcohol fel eu bod wedi meddwi digon i achosi niwed iddynt eu hunain neu eraill.

Mae'r ymgeisydd yn gofyn i drwydded yr eiddo i gael eu hadolygu mewn perthynas â'r argymhellion canlynol -

1. Diddymu'r hawl i werthu alcohol oddi ar y drwydded
2. Ystyried y cais i orchymyn fod Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig (DPS) newydd yn cael ei apwyntio mewn perthynas â'r drwydded
3. Cwtogi'r oriau y caniateir yr eiddo i fod yn agored i 21:00 ( gweler yr oriau cyfredol ar y tabl isod)

| | **TRWYDDED GYFREDOL** | | **TRWYDDED ARFAETHEDIG** | |
|---|---|---|---|---|
| Dyddiau | Gweithgareddau trwyddedig | Oriau cau | Gweithgareddau trwyddedig | Oriau cau |
| Llun/Sul | 12:00 – 23:30 | 00:00 | | 21:00 |

**YMGYNGHORIAD**

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd 10 o ymatebion fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelodau lleol | 1 e bost – gwrthwynebu yr adolygiad |
| Cyngor Cymuned | Dim sylwadau |
| Heddlu | E bost –sylwadau |
| Preswylwyr Cyfagos | 7 llythyr, 10 e bost - gwrthwynebu |
| Gwasanaeth Tan | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd – Iechyd Amgylchedd | Dim sylwadau |
| | |

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd

**CRYNODEB O'R SYLWADAU A SAIL GWRTHWYNEBIADAU I'R ADOLYGIAD**

**Preswylwyr**

Gwrthwynebir y cais am adolygiad oherwydd nad oes sail tystiolaeth fod gweithgareddau yr eiddo a rheolaeth o'r eiddo yn tanseilio yr amcanion trwyddedu canlynol -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelu'r cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Fe gyfeirir at gyfraniad gweithgareddau'r eiddo at ddiwylliant lleol; a ffyniant busnesau. Nid yw'r ystyriaethau hyn yn berthnasol i amcanion y Ddeddf Drwyddedu 2003

**Aelodau'r Cyngor**

Gwrthwynebir y cais am adolygiad ; ar sail y cyfraniad diwylliedig gweithgareddau'r eiddo; ni chyfeirir at dystiolaeth o safbwynt yr amcanion trwyddedu.

**Heddlu**

Derbyniwyd cadarnhad gan yr Heddlu bod galwadau wedi eu derbyn gan Mr Rogers . Cafwyd hefyd cadarnhad fod yr Heddlu wedi rhoi hysbysiad cosb i ddwy ferch yn dilyn digwyddiad o ymddygiad gwrth gymdeithasol. Nid yw'r Heddlu wedi derbyn galwadau eraill gan drigolion Park Square ynglyn a Cell B.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.